Gwasanaethau gofal llygaid y GIG yng Nghymru:

Pa welliannau mae Byrddau Iechyd wedi'u gwneud?

Ionawr 2020

CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL

BWRDD CYMRU | WALES BOARD

Fformatau hygyrch

Os hoffech y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, yna cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda. Gallwch ei lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa ni.

Cynnwys

Cyflwyniad 4
Yr hyn a wnaethom 5
Yr hyn ganfuon ni 9
Yr hyn sy'n digwydd yn lleol 11
A yw pobl yn dal i aros yn rhy hir am apwyntiadau? 32
I grynhoi 36
Cydnabyddiaethau 38
Atborth 38
Manylion cyswllt 38

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned, ar ran y 7 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru.

Y CICau yw corff gwarchod annibynnol gwasanaethau'r GIG yng Nghymru, ac rydym yn annog a galluogi aelodau'r cyhoedd i gymryd rhan weithgar mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar gynllunio, datblygu a darparu gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Mae'r CICau yn gweithio gyda'r GIG, a chyrff arolygu a rheoleiddio, i ddarparu'r cyswllt hanfodol rhwng y rhai sy'n cynllunio a darparu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, y rhai sy'n ei arolygu a'i reoleiddio, a'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Mae'r CICau yn cynnal dialog parhaus gyda'r cyhoedd, drwy amrywiaeth eang o rwydweithiau cymunedol, cyswllt uniongyrchol â chleifion, teuluoedd a gofalwyr, trwy ein gwasanaeth ymholiadau, ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion, gweithgareddau ymweld, a thrwy arolygon y cyhoedd a'r claf.

Mae pob un o'r 7 CIC yng Nghymru yn cynrychioli "llais y claf" yn eu hardaloedd daearyddol priodol.



Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a adroddwyd gan gyrff y GIG i wella gwasanaethau gofal llygaid ledled Cymru, ers i ni adrodd am y tro cyntaf am yr hyn ddywedodd pobl wrthym am eu profiadau yn 2016.

Yr hyn a wnaethom

Yn ôl y GIG yng Nghymru, mae bron i 111,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda cholli golwg. Amcangyfrifir bydd hyn yn codi o draean erbyn 2030, ac yn dyblu erbyn 2050.

Yn 2016, gofynnodd 6 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru (ac eithrio Cyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf), i bobl a oedd yn mynychu clinigau llygaid y GIG, beth oedd eu barn am y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn. Gwnaethom hyn am ein bod wedi clywed bod pobl yn aros yn rhy hir i gael y driniaeth yr oedd ei hangen arnynt ar gyfer eu cyflwr llygaid.

Adroddon ni ar yr hyn ddywedodd pobl wrthym mewn adroddiad cenedlaethol, "Adolygiad Cenedlaethol o Brofiad Cleifion Offthalmoleg (gofal llygaid)", a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2016[1].

[1] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/opendoc/297139

Y themâu cenedlaethol allweddol a nodwyd gennym yn 2016 oedd:

- Roedd mwyafrif y bobl yn hapus gyda'r driniaeth gofal llygaid a gawsant yn lleol yn y gymuned (gofal sylfaenol) ac yn yr ysbyty

- Roedd mwyafrif y bobl yn hapus iawn gyda'r dull, yr agwedd a'r driniaeth a gawsant gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol – er bod rhai'n meddwl y gallai agwedd rhai meddygon ymgynghorol fod yn well

- Roedd rhai pobl yn teimlo eu bod wedi aros yn rhy hir i gael sylw, pan yn mynychu clinig gofal llygaid

- Roedd rhai pobl yn teimlo eu bod wedi gorfod teithio'n rhy bell i fynychu clinig llygaid, a'u bod wedi cael trafferth parcio wedi iddynt gyrraedd yno

- Roedd rhai pobl yn teimlo y gellir gwella'r trefniadau ar gyfer apwyntiadau, ac roeddent yn pryderu am apwyntiadau sy'n cael eu canslo

- Roedd rhai pobl o'r farn y gallai'r cyfathrebu a'r wybodaeth fod yn fwy clir. Roedd hyn yn cynnwys pan oedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn esbonio eu cyflwr llygaid a'u hopsiynau triniaeth, a beth i'w wneud os oeddent yn poeni neu'n pryderu am eu cyflwr neu'u triniaeth

- Roedd pryderon gan rai pobl am 'barhad gofal', a gweld llawer o wahanol weithwyr gofal iechyd gwahanol

- Roedd rhai pobl a oedd angen triniaeth barhaus yn poeni am ba mor hir oedd yn rhaid iddynt aros am apwyntiadau dilynol.

Gofynnodd y CICau i'r 6 Bwrdd Iechyd i wneud gwelliannau, mewn ymateb i'r pethau ddywedodd pobl am y gwasanaethau yn eu hardal.

Yn 2017, gofynnodd CIC Cwm Taf (CIC Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn) i bobl yn ei ardal beth oedd eu barn nhw am wasanaethau gofal llygaid. Roedd eu hatborth yn debyg i'r pethau gododd pobl mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

Ers hynny, mae'r CICau wedi clywed pryderon parhaus am y problemau y mae pobl ar restrau aros am driniaeth gofal llygaid yn eu hwynebu.

Nid oedd y pryderon hyn yn ymwneud ag apwyntiadau cyntaf yn unig, roeddent yn ymwneud ag apwyntiadau dilynol hefyd. Mae hyn oherwydd y gall fod angen adolygiadau neu driniaeth reolaidd, i sicrhau bod golwg person yn gwella, neu i leihau'r risg o ddallineb y gellir ei osgoi.

Arweiniodd hyn at Lywodraeth Cymru yn cyflwyno mesur newydd yn Ebrill 2019, a gynlluniwyd i sicrhau bod cleifion newydd a chleifion presennol yn cael eu gweld, neu eu trin, o fewn amserlen gytûn, yn seiliedig ar eu cyflwr clinigol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai prif fwriad y mesur yw "I sicrhau:

- Y pennir amser aros hiraf i bob unigolyn a atgyfeirir i'r ysbyty ar gyfer offthalmoleg, sy'n seiliedig ar asesiad clinigol o'u cyflwr a'u llesiant; ac
- Y bydd pob claf offthalmoleg sydd angen adolygiad neu driniaeth barhaus reolaidd yn cael ei weld o fewn cyfnodau a ddynodir yn glinigol, sydd hefyd yn seiliedig ar eu cyflwr a'u llesiant, a dylid eu hadolygu ym mhob apwyntiad".

Ym mis Mehefin 2019, gofynnodd y CICau i bob Bwrdd Iechyd yn Nghymru i ddweud wrthym beth yr oeddent wedi'i wneud i wella gwasanaethau gofal llygaid ers ein hadroddiadau cynharach.

Yr hyn ganfuon ni

Camau gwella – themâu cyffredin ledled Cymru

Dywedodd pob un o'r 7 Bwrdd Iechyd wrthym yr hyn roeddent wedi'i wneud, a'r hyn roedden nhw'n bwriadu ei wneud o hyd, i wella eu gwasanaethau gofal llygaid.

Nid yw'n syndod bod cyflwyno'r Mesur Gofal Llygaid Cenedlaethol newydd wedi arwain at nifer o gamau cyson ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r 'llwybrau' gofal llygaid, a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau'n agosáu at gartrefi pobl.

Datblygu dulliau newydd

Adroddodd y Byrddau Iechyd ar amrywiaeth o ddulliau newydd, a gynlluniwyd i wella gwasanaethau gofal llygaid ledled Cymru. Roedd y dulliau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

Cyfathrebu digidol

Adroddodd nifer o Fyrddau Iechyd eu bod wedi cyflwyno systemau trefnu apwyntiadau awtomataidd a gwasanaethau negeseuon testun atgoffa ar gyfer cleifion newydd a chleifion dilynol.

Roedd rhai ardaloedd eisoes yn gallu dangos gwell cyfraddau presenoldeb ar gyfer cleifion.

Digido cofnodion defnyddwyr gwasanaethau yn genedlaethol

Mae Byrddau Iechyd wedi sôn wrthym am ddigido cofnodion meddygol. Bwriad hyn yw rhannu gwybodaeth am gleifion yn hawdd, ar draws pob rhan o'r GIG, fel nad yw cleifion yn gorfod rhannu'r un wybodaeth gyda gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol, dro ar ôl tro.

Unedau gwasanaeth dan arweiniad y gymuned

Mae rhai Byrddau Iechyd wedi agor Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (CDThO) yn eu hardal. Dywedont wrthym fod hyn yn golygu nad yw rhai pobl yn gorfod mynychu'r ysbyty.

Yn hytrach, gallant fynychu eu hapwyntiadau cyntaf, neu reolaidd, yn nes adref. Roedd hyn yn cynnwys pobl â chyflyrau megis glawcoma, Dirywiad Macwlaidd sy'n gysylltiedig â Henaint (DMH) a retinopathi diabetig.

Mae'r newidiadau hyn wedi golygu hefyd bod meddygon ymgynghorol arbenigol yn gallu gwneud gwell defnydd o'u hamser.

Allanoli gwasanaethau

Dywedodd rhai Byrddau Iechyd wrthym eu bod wedi rhoi opsiwn i bobl i gael eu hapwyntiadau dilynol wedi'u 'hallanoli' gyda gwasanaethau gofal llygaid annibynnol.

Mae'n bosib bydd pobl sy'n dewis yr opsiwn hwn yn cael eu gweld yn gyflymach na fydden nhw os oeddent am aros am eu gwasanaeth arferol.

Grwpiau gofal llygaid lleol

Dywedodd pob un o'r Byrddau Iechyd wrthym eu bod wedi cyflwyno grwpiau gofal llygaid a ryw fath. Mae'r grwpiau mewnol hyn yn monitro perfformiad y gwasanaeth ac yn anelu at wrando a dysgu o atborth a chanlyniadau cleifion.

Yr hyn sy'n digwydd yn lleol

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r cynnydd a adroddwyd gan y Byrddau Iechyd unigol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**
Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu atborth cleifion: • bodlonrwydd cleifion cadarnhaol iawn ynghylch eu profiadau clinigol cyffredinol • bodlonrwydd cleifion cadarnhaol iawn ynghylch profiadau cleifion preswyl • gyda darparwyr gofal sylfaenol ynghylch yr angen i sicrhau bod cleifion yn deall yn iawn y broblem a amheuir gyda'u llygaid, a'u bod yn teimlo'n rhan o benderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried atborth	**Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned** • Er mwyn gwella mynediad defnyddwyr gwasanaethau at apwyntiadau ar gyfer y cyflwr Glawcoma, bellach mae gan ardal Gwent chwe Chanolfan Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig (CDThO) ar agor gyda lleoliad clinig cymunedol. Gall y canolfannau hyn adolygu cleifion newydd a chleifion dilynol mewn lleoliad sy'n nes at gartrefi'r cleifion, a lleihau'r angen i fynd i'r ysbyty. • Mae gwasanaeth Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n gysylltiedig â Henaint (AMD Gwlyb) cymunedol newydd ar gael yn ardal Casnewydd, ac mewn dau glinig ysbyty (Ysbyty Nevill Hall ac Ysbyty Ystrad Fawr) hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod y galw am y gwasanaeth arbennig hwn yn cynyddu, ac mae wedi arwain at oedi mewn apwyntiadau dilynol, oherwydd cyfyngiadau ar allu. Dywedodd y Bwrdd Iechyd bod hyn yn cael ei fantoli i ryw raddau, drwy

cleifion ynghylch:

- apwyntiadau dilynol ddim yn digwydd ar amser
- apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol yn cael eu canslo
- profi oedi diangen mewn apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol
- mynediad dros y ffôn at Swyddogion Trefnu Apwyntiadau e.e. ymatebion cyflymach
- teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, a'u bod yn rhan o benderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal
- mae rhai clinigau llygaid yn ymddangos eu bod yn trefnu gormod o apwyntiadau

Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob ddefnyddio'r protocol "trin ac ymestyn".

Mae'r Bwrdd Iechyd yn paratoi achos busnes, i ofyn am adnoddau i gynyddu ei allu; mae hyn yn cynnwys adolygu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer Nyrsys all roi Pigiadau. Gobeithir bydd yr adnodd ychwanegol hwn yn gwella mynediad i gleifion AMD Gwlyb, ac yn lleihau'r oedi mewn apwyntiadau dilynol.

- Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod atborth yn cael ei gasglu'n barhaus, a chanfuwyd cyfradd bodlonrwydd cleifion o 98% o ran CDThO.

Rolau estynedig

- Er mwyn gwella mynediad defnyddwyr gwasanaethau at adolygiadau clinigol a phresgripsiynau, mae Optometryddion yn cael eu hyfforddi i ddod yn Bresgripsiynwyr Annibynnol. Mae hyn yn darparu gwasanaeth un stop i rai cleifion, ac mae'n rhyddhau gallu a gweithgarwch Meddygon Ymgynghorol hefyd.

Cyfathrebu digidol

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno'r gwasanaeth negeseuon testun atgoffa 'Dr-Doctor', i wella'r cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau, a'u hatgoffa am apwyntiadau a drefnwyd. Mae adolygiad o'r gwasanaeth hwn wedi dangos y cafwyd gostyngiad o 9% yn nifer y slotiau apwyntiad a gollwyd.

Ffyrdd newydd o weithio

claf yn: ▪ derbyn digon o wybodaeth i gydsynio i driniaethau. ▪ cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth.	☄ Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Gwasanaeth Unioni Atgyfeiriadau Macwlaidd Gofal Sylfaenol, sydd wedi gwella ansawdd atgyfeiriadau gofal sylfaenol ac wedi lleihau'r angen i atgyfeiriadau amhriodol gael eu galw am adolygiad o fewn y gwasanaethau gofal llygaid eilaidd. ☄ Er mwyn gwella gallu a gweithgarwch y gwasanaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i recriwtio Meddygon Ymgynghorol, gyda mwy o hysbysebion i ddilyn ar gyfer Llawfeddyg cyffredinol / Cataract a gwasanaethau llygaid brys. ☄ Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu **menter allanoli,** i wella amserau aros i gleifion sy'n dymuno derbyn y cynnig o apwyntiad gyda Care UK. Mae atborth cleifion yn cael ei geisio ar y gwasanaeth hwn, ac mae'n ymddangos bod atborth yn dangos bod defnyddwyr gwasanaethau'n ei ystyried yn "ardderchog". ☄ Er mwyn gwella mynediad at y Swyddogion Trefnu Apwyntiadau dros y ffôn, bellach mae'r gwasanaeth trefnu apwyntiadau wedi'i gydleoli yn y Gyfarwyddiaeth, i wella mynediad i ddefnyddwyr gwasanaethau a chyfathrebu o fewn y tîm. **Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau** ☄ Mae Grŵp Gofal Llygaid gan y Bwrdd Iechyd sydd wedi'i hen

	sefydlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r RNIB (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion)[2], i gynghori ar gynnwys a chyfathrebu â chleifion. Mae gwelliannau penodol i gyfathrebu â chleifion yn cynnwys; ○ Mae gwefan y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid bron yn barod. ○ Bydd fideos esboniadol yn cael eu datblygu ar gyfer cyflyrau llygaid penodol, i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion. ○ Derbyniwyd canllawiau newydd ar gydsynio. Mae'r canllawiau newydd yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhoddi i, a'i dderbyn gan, gleifion am eu hopsiynau triniaeth neu lawdriniaeth. ○ Rhoddir taflenni i gleifion, sy'n esbonio beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw ofidiau am eu gofal neu'u cyflwr. ○ Cyflawnwyd yr argymhelliad i roi atborth i Ofal Sylfaenol drwy'r grwpiau cydweithredol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn deall yn iawn pam eu bod yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gofal llygaid, a bod y claf yn cael ei gynnwys wrth wneud y penderfyniad hwnnw.
Beth arall sydd angen digwydd nawr? Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i ateb y galw yn y gwasanaeth AMD Gwlyb yn well.	

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**

[2] https://www.rnib.org.uk/

wella	
Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu atborth cleifion: • ar fodlonrwydd gyda threfnu apwyntiadau cyntaf • yn ymwneud â theimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, ond gan nodi'r sylwadau ynghylch cael y cyfle i siarad, a phryder unigolyn ynghylch dioddef poen hefyd • ar fodlonrwydd mawr cleifion o fod yn rhan o benderfyniadau, ond gan nodi rhai sylwadau ynghylch "siarad yn blaen" ac "esbonio'n iawn" • ar lefelau uchel o fodlonrwydd o ran derbyn digon o wybodaeth i gydsynio i driniaethau • ar lefelau uchel o fodlonrwydd o ran diagnosis yn cael ei esbonio'n iawn i gleifion, ond gan nodi'r sylw / awgrym ar daflenni gwybodaeth i gleifion	**Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned** • Llwybrau Offthalmig newydd megis; mae apwyntiadau Optometrig dilynol, ar ôl gweithred gataract, wedi cael eu cynllunio i leihau nifer yr ymweliadau â'r ysbyty, ac felly mae gofal dilynol yn cael ei ddarparu'n nes at gartrefi cleifion. **Ffyrdd newydd o weithio** • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Llywodraeth Cymru, i leihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo gan yr ysbyty, ond nid yw wedi darparu unrhyw ddadansoddiad effaith pellach, i ddangos gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau a ganslwyd ar gyfer cleifion. • Dechreuwyd cyflwyno Llwybrau Integredig, a fydd yn cynyddu effeithiolrwydd ac yn lleihau oedi i gleifion. Mae'r llwybrau hyn yn optimeiddio'r defnydd o amser a sgiliau clinigol, i alluogi mynediad mwy amserol at wasanaethau. • Fel rhan o'r mesurau gofal Llygaid cenedlaethol, dechreuodd y Bwrdd Iechyd drefnu apwyntiadau yn ôl ffactor risg ym Mehefin 2019, ac mae'n mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol o gleifion. **Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau** • Er mwyn gwella lefel y cyfathrebu a'r wybodaeth a rennir gyda

☾ ar lefelau uchel o fodlonrwydd cleifion o ran eu profiadau clinigol, fodd bynnag, dylid ystyried rhai pryderon unigol ☾ yn ymwneud â phrofiadau cleifion preswyl. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried atborth cleifion ynghylch: ☾ apwyntiadau dilynol ddim yn digwydd ar amser ☾ apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol yn cael eu canslo ☾ profi oedi diangen mewn apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod: ☾ pob claf yn cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr	chleifion, adroddodd y Bwrdd Iechyd: ○ Mae cynnydd mewn cyfathrebu â chleifion yn cael ei gyflawni drwy lythyrau ôl-glinig, i gyfeirio atynt wedi i gleifion fynychu clinig. ○ Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno datblygu adnoddau gwybodaeth i gleifion, ar ôl ailgynllunio'r llwybr Cataract. ○ Esboniodd y Bwrdd Iechyd fod pwyntiau cyswllt yn cael eu rhoddi i gleifion mewn apwyntiadau, ynghyd â manylion llinell gymorth yr RNIB. ○ Bydd sesiwn gloywi yn cael ei chynnal gyda darparwyr Gofal Sylfaenol, ynghylch taflenni gwybodaeth i gleifion ar gyflyrau penodol, h.y. dylid rhoddi taflen wybodaeth Cataract i'r claf ar adeg ei atgyfeirio ac eto gyda llythyr cydnabod y Bwrdd Iechyd i'r claf. Mae fformatau gwybodaeth sain / clywedol yn cael eu harchwilio. ○ Mae fideos a chynnwys cyfryngau ar gyfer ardaloedd aros clinigau'n cael eu datblygu (yn arbennig ar gyfer clinigau cataract). ○ Mae taflenni gwybodaeth EIDO (cyflwr-benodol) yn cael eu rhannu mewn clinigau, fel mater o drefn, a rhoddir proc i'r cof trwy gydol llwybr y claf, i wirio ei fod yn deall. Mae EIDO yn sefydliad sy'n darparu taflenni cleifion enghreifftiol).

neu'u triniaeth • darparwyr gofal sylfaenol yn cynnig digon o wybodaeth i gleifion am y broblem a amheuir gyda'u llygaid, a sicrhau bod cleifion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.	

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd rannu gyda'i CIC pa fesurau profiadau cleifion sydd ar waith i fonitro ac ymateb i atborth cleifion.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**
Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu atborth cleifion: • ynghylch bodlonrwydd cleifion gyda'u profiadau clinigol (ond gan nodi hefyd y sylwadau'n ymwneud â llawdriniaethau a ganslwyd ac amserlenni triniaeth. • ynghylch profiadau cleifion preswyl hynod gadarnhaol. • bod cleifion yn teimlo'n rhan o benderfyniadau a wnaed am eu gofal yn ystod eu hapwyntiad cyntaf. • bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn esbonio cyflyrau'n iawn i gleifion, mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried: • atborth cleifion ynghylch apwyntiadau dilynol nad sy'n	**Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned** • Er mwyn cefnogi mynediad amserol at adolygiadau dilynol, mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi cynyddu ei allu yn y gymuned ar gyfer clinigau dilynol yn arbenigeddau AMD, Glawcoma a Retinopathi Diabetig. **Ffyrdd newydd o weithio** • O ran atborth cleifion ynghylch oedi mewn apwyntiadau dilynol, a chyflwyno'r Mesurau Gofal Llygaid Cymru Gyfan newydd, mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi cyflwyno system rheoli data gadarn, i nodi cleifion sydd angen eu gweld, ac i flaenoriaethu eu hapwyntiad, yn unol â'u sgôr risg. **Cyfathrebu digidol** • Mae gwasanaeth trefnu apwyntiadau a negeseuon testun atgoffa cwbl awtomataidd ar gael i gleifion newydd, ac mae negeseuon testun atgoffa ar gael i gleifion dilynol. Mae adolygiad o'r gwasanaeth hwn wedi dangos gwelliant mewn presenoldeb, a bod gwell defnydd yn cael ei wneud o slotiau apwyntiad.

digwydd ar amser

- barnau rhai cleifion a oedd yn teimlo bod eu hapwyntiad cyntaf a'u hapwyntiadau dilynol wedi cael eu hoedi'n ddiangen, a bod hyn wedi arwain at beth anfodlonrwydd gyda'r broses trefnu apwyntiadau ac amserau aros
- barnau rhai cleifion a oedd yn teimlo nad oeddent yn rhan o benderfyniadau yn ystod eu hapwyntiadau dilynol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod:

- pob claf yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt
- pob claf yn cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth
- pob claf yn cael eu trin mewn modd cydymdeimladol.

Dysgu o bryderon ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati i adolygu pryderon a chwynion a godwyd gan gleifion am apwyntiadau a ganslwyd, er mwyn ysgogi dysgu cyflym a gwelliannau, lle bo angen a lle bo hynny'n bosib.

- Er mwyn sicrhau bod cleifion yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno holiadur cleifion "2 funud o'ch amser". Mae atborth cleifion a chanlyniadau bodlonrwydd yn cael eu hadrodd i, a'u monitro gan, bwyllgor ADPh y Bwrdd Iechyd.

- Mae cynlluniau yn y dyfodol i gyflwyno'r arolwg bodlonrwydd cleifion ym mhob maes cleifion allanol (gan gynnwys Offthalmoleg), yna bydd y canlyniadau'n cael eu crynhoi mewn fformat "fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni", i'w harddangos mewn ardaloedd cyhoeddus.

Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau

- Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybod am bwynt cyswllt os oes ganddynt unrhyw ofidiau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno "llythyrau cefnogi", sy'n nodi'r hyn sydd angen i unigolyn ei wneud os oes ganddo / ganddi unrhyw bryderon.

- Er mwyn cynyddu adnoddau gwybodaeth i gleifion, mae gwefan Offthalmoleg y Bwrdd Iechyd yn cynnig gwybodaeth fanwl am gyngor clinigol.

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd rannu gyda'i CIC effaith cynnig gwasanaethau ychwanegol yn y gymuned, a lefel bodlonrwydd cleifion yn y maes hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**
• Sicrhau bod pob claf yn cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth. • Rhannu gyda darparwyr Gofal Sylfaenol yr atborth cleifion cenedlaethol ynghylch cynnig gwybodaeth / esboniad digonol i gleifion am y broblem a amheuir gyda'u llygaid. • Roedd cleifion sy'n teithio ar fysiau'n sôn am anawsterau wrth geisio dal mwy nag un bws i gyrraedd clinig. Yr anhawster a brofir gan ddefnyddwyr ceir yw argaeledd lleoedd parcio. • Atgyfnerthu i staff clinigol bwysigrwydd rhannu gwybodaeth	**Ffyrdd newydd o weithio** • Er mwyn gwella adolygiad amserol cleifion dilynol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu **menter allanoli.** Mae cleifion dilynol yn cael eu hadolygu ac mae llythyrau'n cael eu hanfon atynt, i gynnig adolygiad wedi'i allanoli, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol i roi gwybod â phwy mae cysylltu am eu hapwyntiad dilynol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod perfformiad yn y maes hwn "yn parhau i fod yn bryder sylweddol ac yn bryder cenedlaethol". • Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd Amser Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth (ARhATh), ac mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cyfarfodydd Busnes Clinigol. Mae "bwrdd prosiect apwyntiadau dilynol" wedi cael ei gyflwyno, i fonitro cleifion dilynol a'u llwybrau. • O 2017-18 ymlaen - nid oes unrhyw gleifion wedi aros mwy na 12 mis am eu hapwyntiad cyntaf. Fel yr oedd hi ym mis Gorffennaf 2018, doedd dim cleifion yn aros mwy na 36 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf, a chafodd hyn ei gynnal hyd at yr 31ain o Fawrth 2019. • Mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi ymrwymo'n llwyr i symud ei

gyda chleifion am eu triniaeth, gan gynnwys sgil effeithiau'r driniaeth.

- Ystyried sut ellir hysbysebu rôl Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid (SCGLl), fel bod cleifion yn gallu defnyddio'r adnodd hwn, gan fod lleiafrif y cleifion a oedd yn gwybod amdano'n dweud wrth y CIC ei fod yn gynorthwyol iawn.

- Sicrhau bod taflenni gwybodaeth yn cael eu rhannu gyda chleifion, naill ai ar gopi caled neu drwy gyfrwng electronig.

- Ystyried cynnwys gwybodaeth am amserau aros amcangyfrifedig tra eu bod yn ystafell aros y Clinig, naill ai yn y taflenni Gwybodaeth i Gleifion neu drwy ffordd arall o gyfathrebu â chleifion.

- Rhannu gwybodaeth gyda chleifion am flaenoriaethu eu hapwyntiad a'r amserlenni rhagamcanol presennol berfformiad amserau aros i'r safonau Ffactorau Risg Iechyd, ac mae'r adrodd newydd gychwyn gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2019.

Mynediad at le i barcio

- Mae mynediad at le i barcio yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysog Siarl wedi cynyddu, gyda lleoedd parcio ychwanegol, fodd bynnag, nid yw hyn wedi datrys y broblem yn gyfan gwbl. Bydd pryderon yn ymwneud â chludiant yn dal i gael eu codi pan fyddant yn cael eu nodi drwy Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC).

Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau

- Er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth am eu triniaethau ac unrhyw sgil effeithiau, tynnwyd sylw clinigwyr at yr argymhelliad hwn, yn eu cyfarfodydd is-gyfarwyddiaeth.

- Atgoffwyd staff clinigol, yn eu cyfarfodydd is-gyfarwyddiaeth, i fod yn wyliadwrus wrth gynnig gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau yn ymwneud â'r Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid. Dywedwyd wrth y CIC bod taflenni gwybodaeth i gleifion wedi cael eu diweddaru gyda'r wybodaeth hon hefyd.

- Cafodd pob un o'r taflenni gwybodaeth i gleifion eu hadolygu yng **ngrŵp Gofal Iechyd Llygaid** y Bwrdd Iechyd, i sicrhau eu bod yn gyfoes. Bydd ystafelloedd clinig yn cael eu gwirio'n rheolaidd, i

cyn y gellir eu gweld.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd wrth leihau amserau aros am apwyntiadau cyntaf, gyda 63% o'r rhai hynny a holwyd yn cadarnhau na fuon nhw'n aros mwy na 6 mis i gael eu gweld.

- Serch hynny, mae hyn yn gadael 37% o gleifion yn aros mwy na 6 mis am apwyntiad cyntaf. Mae rhai cleifion yn adrodd eu bod wedi aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf.

- Nododd rhai cleifion yn eu sylwadau ychwanegol eu bod yn ystyried bod problem yn ymwneud ag argaeledd eu ffeiliau claf wedi arwain at oedi yn eu triniaeth. Esboniwch a oes unrhyw broblemau'n ymwneud ag argaeledd ffeiliau claf, a sicrhewch eich hun bod systemau priodol ar waith, i osgoi unrhyw oedi mewn triniaeth a allai godi o ganlyniad i'r mater hwn.

sicrhau eu bod ar gael a bod stoc ddigonol.

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi esbonio, pe bai cleifion yn dymuno dod i wybod am yr amserau aros posib mewn clinigau, y gellir ceisio'r wybodaeth hon dros y ffôn, i gael amcangyfrifon cyfoes, gan fod amserau aros yn amrywio'n ddyddiol, ac ni fyddai deunydd darllen yn rhoi amcangyfrif manwl gywir o hyd.

- Bydd cyfathrebu â chleifion, bob chwe mis, yn rhan o'r prosiect "apwyntiadau dilynol".

¿ Dywedodd rhai cleifion wrthym fod eu cyflyrau llygaid wedi dirywio tra eu bod ar restr aros am apwyntiadau dilynol.	

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i drafod ei ddatblygiadau gofal llygaid a'u heffaith ar amserau aros i bobl gyda'i CIC. Dylid adolygu bodlonrwydd cleifion yn gyson, o ran ansawdd yr wybodaeth a roddir i gleifion mewn clinigau, ynghylch eu triniaethau neu unrhyw sgil effeithiau.

Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd
Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu'r atborth cadarnhaol iawn ynghylch: • cleifion yn teimlo fod rhywun yn gwrando arnynt (gan nodi sylwadau un unigolyn ynghylch agwedd canfyddedig y Meddyg Ymgynghorol a'r wybodaeth a roddwyd) • cleifion yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau a wneir am eu gofal, ond gan nodi sylwadau rhai nad oedd yn teimlo'n rhan • cleifion yn derbyn esboniad llawn o'u cyflwr, ond eto gan nodi sylwadau un unigolyn a gododd bryderon • cleifion yn cael eu trin gyda pharch, cydymdeimlad, a gyda diddordeb • profiadau clinigol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sylwadau	**Ffyrdd newydd o weithio** • Er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw "apwyntiadau dilynol heb eu trefnu", mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu proses uwchgyfeirio, drwy broses ddilysu Offthalmoleg, i nodi pwy sydd fwyaf mewn perygl o niwed y gellir ei osgoi. Gall hyn gynnwys adolygiad clinigol a gweinyddol, gyda chefnogaeth Asesiad Gofal Sylfaenol, a gall arwain at sefydlu clinigau brys, lle bo hynny'n briodol. Mae'r broses hon bellach wedi'i hategu gan ddatblygiad **Canolfannau Diagnosteg a Thriniaeth Offthalmig** (CDThO) ledled yr ardal, o Ionawr 2018 ymlaen. • Ers cyflwyno Meddyg Ymgynghorol Locwm y GIG yn y clinigau IVT (pigiadau Intravitreal), cafwyd gostyngiad nodedig yn nifer y clinigau a ganslwyd. • Mae sesiwn diweddaru gofal sylfaenol wedi cael ei rhannu, drwy'r Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol, ynghylch yr angen am atgyfeirio buan i ofal eilaidd, pan fo angen. Mae hyn bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Brysbennu Optometrig newydd, a gyflwynwyd yn Ebrill 2017. **Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau**

ac atborth cleifion ynghylch:

- apwyntiadau dilynol ddim yn digwydd ar amser
- apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol (a llawdriniaethau) yn cael eu canslo
- apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol yn destun i oedi afresymol.

Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod pob claf yn:

- derbyn digon o wybodaeth i gydsynio i driniaethau
- cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu gofal neu'u triniaeth

Dylai'r Bwrdd Iechyd:

- Rannu gyda darparwyr gofal sylfaenol yr angen am atgyfeirio buan i ofal eilaidd.
- Dylai darparwyr gofal sylfaenol

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud mai'r nod yn 2019 yw lleihau nifer yr apwyntiadau sy'n cael eu canslo gan yr ysbyty, i gynorthwyo gyda hyn;
    - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cynllun cyfathrebu clir, i sicrhau ei fod yn cysylltu â chleifion sy'n cysylltu ag ef yn brydlon, i sicrhau eu bod yn cael eu gweld cyn gynted ag y bo modd.
    - Mae gwasanaeth negeseuon testun atgoffa am apwyntiadau yn cael ei archwilio.
- Ers adolygiad y CIC o brofiadau cleifion, mae Adran Llygaid y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu system gyda'r Tîm Pryderon Cleifion, i gysylltu â phobl ar unwaith i drafod eu pryderon am unrhyw oedi maen nhw'n ei brofi. Rhagwelir y bydd yn cael ei brif ffrydio ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys mwy o gyswllt gyda'r system apwyntiadau ganolog.
- Mae gweithdrefnau cydsynio diwygiedig ar waith bellach ar gyfer IVT a llawdriniaethau Cataract, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth am y driniaeth a'r weithred. Bydd hyn yn cael ei archwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned

- Fel yr amlygwyd uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno

sicrhau bod cleifion yn teimlo'n rhan o benderfyniadau a wneir am eu gofal.	gwasanaeth dan arweiniad y gymuned, drwy agor CDThO. Swyddogaeth arbennig hyn yw ategu'r system Asesu Glawcoma (ar gyfer apwyntiadau dilynol cylchol yn y gymuned). Mae hyn yn rhyddhau'r gwasanaeth gofal eilaidd, ac felly mae'n gwella apwyntiadau dilynol amserol i gleifion. **Dysgu o bryderon** • Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn mynd ati i ddysgu o bryderon a godwyd, a bod y pryderon hyn yn cael eu rhannu, fel mater o drefn, yn y **Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid** a'r Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau chwarterol.

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i drafod ei ddatblygiadau gofal llygaid, a'u heffaith ar amserau aros a chansladau, gyda'i CIC. Dylai'r hyn a ddysgwyd o bryderon a chwynion gael ei rannu a'i drafod, i sicrhau ei fod yn arwain at welliant parhaus.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**
Dylai'r Bwrdd Iechyd rannu'r atborth cadarnhaol iawn ynghylch: • apwyntiadau dilynol a ddigwyddodd ar amser ac na fu'n destun i oedi diangen, er gwaethaf y ffaith fod rhai apwyntiadau wedi cael eu canslo • y broses trefnu apwyntiadau ar gyfer apwyntiadau cyntaf, ond gan nodi sylwadau unigolyn ynghylch problemau trawsffiniol • pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt (gan nodi sylwadau unigolyn ynghylch agweddau) • teimlo'n rhan o benderfyniadau a wneir am ofal • teimlo bod cyflyrau llygaid wedi cael	**Dysgu o sylwadau cleifion** • Cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd bod pwyntiau lluosog, yn ymwneud â bodlonrwydd mawr cleifion, yn cael eu rhannu o fewn LGM Canol a De Powys, a gydag aelodau'r tîm gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i gynnal y safonau yn y meysydd a amlygwyd. Ymchwiliwyd i rai sylwadau blaenorol yn ymwneud ag agwedd Meddyg Ymgynghorol, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau nad yw'r Meddyg hwn yn ymweld ag ardal Powys bellach. **Ffyrdd newydd o weithio** • Mewn ymateb i rai sylwadau gan gleifion, ynghylch teimlad bod nifer o apwyntiadau cyntaf wedi cael eu canslo neu'u hoedi, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod yn ymdrechu i osgoi canslo apwyntiadau, ond mae hyn yn digwydd weithiau am nifer o resymau, gan gynnwys anallu Meddyg Ymgynghorol Mewngymorth (gan ddarparwr allanol) i fynychu clinig a drefnwyd ymlaen llaw. **Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau**

eu hesbonio'n iawn • derbyn digon o wybodaeth i gydsynio i driniaethau • profiadau clinigol pobl • yr wybodaeth a dderbyniwyd gan ddarparwyr gofal sylfaenol, a theimlo eu bod yn gwrando arnynt. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried: • sylwadau cleifion am apwyntiadau cyntaf wedi'u canslo, a'r teimlad eu bod yn destun i oedi diangen. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau: • bod pob claf yn cael cynnig cyngor ar beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth.	• O ran sicrhau bod cleifion yn cael cynnig cyngor ar beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod wedi cael ei rannu gydag aelodau'r tîm gweithredol. Ymatebodd LGM Gogledd Powys gyda manylion sut mae pryderon cleifion yn cael eu hymdrin gan staff, ond ni chafodd unrhyw fanylion pellach ynghylch hyn eu rhannu gyda ni. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith fod adolygiad profiadau cleifion 2016 wedi amlygu lefelau uchel iawn o fodlonrwydd cleifion mewn meysydd lluosog, heblaw am ambell sylw unigol gan ddefnyddwyr gwasanaethau ar y pryd. Mae'n galonogol adrodd bod y bodlonrwydd mawr hwn wedi'i rannu ledled yr ardal, ac yr ymchwiliwyd i sylwadau unigol, lle bu hynny'n bosib.

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd rannu a thrafod ei atborth ynghylch profiadau cleifion gyda'i CIC, ynghyd â'i fesurau i sicrhau bod y profiadau cadarnhaol a rannwyd gan fwyafrif y cleifion yn parhau.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	
Yr hyn ddywedon ni sydd angen ei wella	**Cynnydd a adroddwyd gan y Bwrdd Iechyd**
• Ystyried atborth cleifion ynghylch apwyntiadau dilynol a ganslwyd, a barnau cleifion bod rhai apwyntiadau cyntaf ac apwyntiadau dilynol yn destun i oedi diangen. • Rhannu'r atborth cadarnhaol bod Cleifion yn teimlo fod rhywun yn gwrando arnynt, a'u bod yn teimlo'n rhan o benderfyniadau a wneir am eu gofal gan weithwyr iechyd Gofal Eilaidd proffesiynol. • Rhannu'r atborth cadarnhaol bod 100% o gleifion yn teimlo bod eu cyflyrau'n cael eu hesbonio'n iawn ac mewn ffordd y gallent ei ddeall. • Sicrhau bod pob claf yn cael gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon neu ofidiau am eu cyflwr	**Gwasanaethau dan arweiniad y gymuned** • Erbyn hyn, mae gwasanaeth Glawcoma yn cael ei ddarparu yn ardal Abertawe, i gynorthwyo i gynnig apwyntiadau i gleifion yn nes adref, ac i osgoi'r angen i fynychu'r ysbyty ar gyfer apwyntiadau. **Ffyrdd newydd o weithio** • Er mwyn sicrhau bod gwasanaeth digonol yn cael ei ddarparu yn yr ysbyty ar gyfer clinigau ac apwyntiadau, ac er mwyn osgoi oedi neu ganslo apwyntiadau, mae'r Gyfarwyddiaeth bellach yn monitro gwyliau blynyddol 6 wythnos, i sicrhau darpariaeth ddigonol. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y mae unrhyw wyliau mae clinigwyr yn gofyn amdanynt, gyda llai na 6 wythnos o rybudd, yn cael eu caniatáu. • Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu at recriwtio Meddygon ychwanegol, i ryddhau Meddygon ar gyfer clinigau brys neu arbenigol. Gobeithir bydd hyn hefyd yn lleihau nifer y clinigau sy'n cael eu canslo. • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi elwa o 2 ystafell ychwanegol eleni, am fod y Gwasanaeth Sgrinio Diabetig wedi cael ei adleoli, ac mae hyn wedi ei alluogi i gynyddu ei allu, a hefyd cynyddu nifer y Lonydd Golwg yn

neu'u triniaeth.

- Rhannu'r atborth cleifion cadarnhaol iawn ynghylch profiadau cleifion preswyl.
- Rhannu gyda darparwyr gofal sylfaenol yr atborth cleifion ynghylch cynnig gwybodaeth / esboniad digonol i gleifion am y broblem a amheuir gyda'u llygaid, a sicrhau bod pob claf yn teimlo fod rhywun yn gwrando arnynt, a'u bod yn rhan o benderfyniadau a wneir am eu gofal.

yr adran.

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod yr oedi presennol yn y gwasanaeth yn digwydd oherwydd diffyg gallu i gwrdd â'r galw. Mae'n dweud bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, megis recriwtio ayb.

Cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau

- Mae pobl a all fod â phryderon neu ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth yn cael eu cyfeirio at dîm PALS (Cyngor a Chyswllt Cleifion) yr ysbyty, drwy bosteri yn yr adran llygaid.
- Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybod yn iawn y rhesymau maen nhw'n cael eu hatgyfeirio at wasanaethau gofal eilaidd, rhoddwyd atborth i ddarparwyr Gofal Sylfaenol, drwy eu cyfarfodydd grŵp clwstwr. Bydd y gwaith hwn yn rhan hefyd o rôl yr Ymgynghorydd Optometrig, sydd wedi bod yn y swydd ers 2016.

Beth arall sydd angen digwydd nawr?

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd rannu a thrafod gyda'i CIC y cynlluniau manwl sydd ganddo ar waith, i ymdrin ag amserau aros hir, yn ogystal â'i gamau i fynd i'r afael â phryderon ynghylch yr hyn ddylai pobl ei wneud os oes ganddynt ofidiau am eu cyflwr neu'u triniaeth.

A yw pobl yn dal i aros yn rhy hir am apwyntiadau?

Edrychon ni ar yr wybodaeth a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru, i weld a yw'r camau a gymerwyd gan y Byrddau Iechyd yn arwain at welliant, o ran pa mor hir mae'n rhaid i bobl aros am ofal a thriniaeth.

Mae'r tabl isod yn dangos, rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2019, bod pethau wedi gwella i bobl a oedd yn aros am eu hapwyntiad cyntaf. Roedd llai o bobl yn aros dros 36 wythnos.

	Aros hyd at 26 wythnos	**Aros rhwng 26 a 36 wythnos**	**Aros mwy na 36 wythnos**
2016/2017	80%	13%	7%
2017/2018	80%	15%	5%
2018/2019	84%	14%	2%

Mesurau gofal llygaid Cymru gyfan

Ers Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn monitro perfformiad gwasanaethau gofal llygaid, yn erbyn y mesurau newydd[3].

Mae'r mesurau'n nodi perfformiad ar gyfer apwyntiadau cyntaf (newydd) ac apwyntiadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a thriniaeth barhaus ar gyfer eu cyflyrau llygaid (dilynol).

Mae'r dyddiadau targed ar gyfer apwyntiadau yn seiliedig ar asesiadau clinigol o gyflwr a lles pobl. Mae'r mesurau'n olrhain pa mor dda mae cyrff y GIG yn perfformio i bobl yr aseswyd eu bod

[3] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Eye-care/eyecaremeasuresfornhsoutpatients

"mewn **perygl** o niwed anghildroadwy neu ganlyniad niweidiol sylweddol[4]" os na chânt eu gweld o fewn eu hamserau targed.

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos perfformiad ledled Cymru ers cyflwyno'r mesurau newydd.

	Ebrill 2019	**Mai 2019**	**Mehefin 2019**	**Gorffennaf 2019**	**Awst 2019**
Cyfanswm y bobl a aseswyd fel Ffactor Risg Iechyd R1	100,223	104,095	109,021	110,735	113,132
Nifer a % y bobl uchod sy'n aros o fewn eu dyddiad targed[5]	65,703 65.6 %	68,908 66.2 %	70,798 64.9 %	71,044 64.2 %	71,278 63 %

[4] Ffactor Risg Iechyd R1

[5] Neu o fewn 25% y tu hwnt i'r dyddiad targed ar gyfer apwyntiad claf allanol



Mae'r ffordd y cyflwynwyd y ffigyrau'n golygu nad yw'n glir pa gyfran o bobl sy'n aros o fewn eu hamserau targed, neu y tu hwnt i'r amser targed hwnnw ond o fewn 25%. Nid yw'n glir ychwaith beth mae bod y tu hwnt i'r amser targed ond o fewn 25% yn ei olygu, o ran niwed posib.

Yr hyn mae'r ffigyrau'n ei ddangos yw bod tua thraean y bobl y nodwyd eu bod mewn perygl ledled Cymru, os na chânt eu gweld o fewn eu hamserau targed, wedi aros yn rhy hir am apwyntiad.

Mae gwahaniaethau mewn perfformiad mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Roedd pobl sy'n byw ym Mhowys yn fwy tebygol o gael eu gweld o fewn eu hamserau targed, na phobl sy'n byw yn ardaloedd eraill o Gymru.

Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, Hywel Dda a Bae Abertawe wedi gweld eu perfformiad yn gwaethygu, yn erbyn y targedau rhwng Ebrill ac Awst 2019.

Mae Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg a Hywel

Dda wedi gweld cynnydd sylweddol mewn galw yn ystod yr un cyfnod (fel y dangosir yn y graff isod).

Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Addysgu Lleol Powys wedi gwella eu perfformiad yn ystod yr un cyfnod.

	Ebrill 2019	**Awst 2019**
Aneurin Bevan	11,539	16,053
	71.5 %	**64.1 %**
Betsi Cadwaladr	29,519	29,666
	61.7 %	**63.5 %**
Caerdydd a'r Fro	16,133	16,150
	51.4 %	**58.6 %**
Cwm Taf Morgannwg	15,896	19,719
	78.3 %	**65.2 %**
Hywel Dda	9,351	12,636
	67.5 %	**58.3 %**
Powys	1,102	1,426
	93.6 %	**95.5 %**
Bae Abertawe	16,683	17,482
	67 %	**63.6 %**

Nifer y bobl	Canran y bobl

I grynhoi

Mae gormod o bobl yn dal i aros yn rhy hir i gael mynediad at y gwasanaethau gofal llygaid sydd eu hangen arnynt. Yn ôl mesurau newydd Llywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu, yn Awst 2019, roedd dros 40,000 o bobl yng Nghymru mewn perygl o "niwed anghildroadwy neu ganlyniad niweidiol sylweddol" o ganlyniad.

Ers ein hadolygiad yn 2016, mae pob Bwrdd Iechyd wedi dangos gwir ymrwymiad at wella gwasanaethau gofal llygaid yn eu hardal.

Roedd llawer o'r Byrddau Iechyd yn glir hefyd ynghylch eu pryderon parhaus am oedi mewn apwyntiadau parhaus (dilynol). Mae pob un o'r Byrddau Iechyd wedi gweithredu, ac mae'r mwyafrif wedi amlinellu sut maen nhw'n bwriadu mynd i'r afael â'r oedi parhaus.

Nid yw'r cynlluniau hyn wedi arwain eto at well gwasanaeth ar gyfer llawer gormod o bobl.

Mae gan rai o'r camau a gymerwyd eisoes gan y Byrddau Iechyd fuddion amlwg i bobl. Er enghraifft, mae cyflwyno gwasanaethau dan arweiniad y gymuned yn golygu bod pobl yn gallu cael eu hapwyntiadau'n nes adref. Mae'n ymddangos hefyd bod rolau estynedig gweithwyr gofal llygaid proffesiynol yn helpu i leihau'r faich ar feddygon ymgynghorol.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar yr ymatebion a ddarparwyd gan bob Bwrdd Iechyd, ac yng ngoleuni'r ffigyrau perfformiad a gyhoeddwyd, mae'n amlwg bod angen gwneud mwy, fel bod pobl yng Nghymru yn cael y driniaeth gofal llygaid sydd ei hangen arnynt, pan fo ei hangen arnynt.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru i:

- wneud mwy i leihau'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am apwyntiadau ar hyn o bryd
- sicrhau bod cynlluniau tymor hirach yn gallu darparu gwasanaeth teg, sy'n ateb y galw cynyddol am wasanaethau gofal llygaid ledled Cymru
- darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar bobl i gefnogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cyflwr a'u hopsiynau triniaeth
- sicrhau bod trefniadau atborth y claf cadarn ar waith, i fonitro ac adolygu bodlonrwydd cleifion yn rheolaidd
- sicrhau bod cyfathrebu digidol yn symud ymlaen ar gyflymder ym mhob maes.

Mewn ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

"Wrth gyflwyno'r mesur newydd, roeddem yn ymwybodol y byddai nifer o fisoedd cyn y gellir nodi gwelliannau cynaliadwy. Er mwyn cynorthwyo byrddau iechyd, roedd cronfa gynaladwyedd o £3.3 miliwn ar gael, i roi'r llwybrau gorau posib ar waith ac i sefydlu gwasanaethau dan arweiniad y gymuned.

Rydym yn sicr y bydd y cyllid hwn, gyda chymorth gallu ychwanegol gan optometryddion gofal sylfaenol, yn gwella amserau aros wrth symud ymlaen ym mhob ardal."

Bydd y CICau yn parhau i fonitro perfformiad y GIG yn eu hardaloedd bwrdd iechyd, er mwyn gwirio a oes gwelliannau'n cael eu gwneud lle bo eu hangen ym mhob rhan o Gymru.

Cydnabyddiaethau

Rydym yn diolch i'r 7 Bwrdd Iechyd yng Nghymru am eu hymatebion diymdroi i gais y Cyngor Iechyd Cymuned am wybodaeth.

Atborth

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau sut y gallem fod wedi'i wella.

Manylion cyswllt

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
33 / 35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB

02920 235 558

enquiries@waleschc.org.uk

www.communityhealthcouncils.org.uk

@CHC_Wales